



# Llwybr natur



Os ydych chi'n ymweld â chwareli'r Mynydd Du, beth am weld a allwch chi ddod o hyd i rai o'r eitemau sydd yn y lluniau isod?

**Peidiwch â chasglu blodau gwyllt, ond gadewch hwy i bobl eraill (a gwenyn) eu mwynhau!**



Tormaen llydandroed



Toddyn cyffredin



Berwr-y-cerrig blewog



Fioled



Twffa



Allwch chi ddod o hyd i ffosil?



Teim




Cen





# Llwybr natur



Planhigyn lluosflwydd bytholwyrdd sy'n tyfu'n isel yw'r Tormaen llydandroed, sy'n creu carpedi trwchus o ddeiliant. Mae'n hoffi tyfu yn yr uchelderau, ac yn ffafrio mannau creigiog ac agored. Gellir gweld ei flodau rhwng Gorffennaf ac Awst.

Planhigyn pryfysol yw'r toddyn cyffredin. Mae dail melyn-wyrdd gloyw'r toddyn cyffredin yn gollwng hylif gludiog sy'n denu pryfed. Unwaith y bydd wedi dal pryfyn, mae'r dail yn cau yn araf o amgylch eu hysglyfaeth ac yn ei dreulio. Mae'r toddyn cyffredin cigysol yn hoffi pridd alcalin lle mae'r maetholion yn wael a'r safle yn llaith i gorsiog. Gellir gweld ei flodau porffor rhwng Mai a Gorffennaf.



Fel arfer nid yw Berwr-y-cerrig blewog yn tyfu ddim uwch na throedfedd, gyda dail blewog ar ran isaf y goes sy'n pwyntio am i fyny, a nifer o godau hadau ar y rhan uchaf, i gyd yn agos at y goes. Mae'r planhigyn hwn yn hoffi tyfu ger cerrig brig. Gellir gweld ei flodau ym mis Mehefin.

Ceir hyd i'r fioled gyffredin gan amlaf ar laswellt calchaid byr sydd wedi'i bori, a sgrï calchfaen. Mae'r fioled yn ei blodau rhwng mis Ebrill a mis Awst, ac mae gloynnod byw yn eu defnyddio fel ffynhonnell neithdar gynnar.



Fel arfer caiff twffa ei ganfod mewn ogofâu tanddaearol yn unig. Yn Chwarel Herbert mae twffa wedi ffurfio uwchben lefel y ddaear! Wrth i ddŵr godi o dan ddaear mae'n golchi drwy'r tipiau gwastraff sydd wedi'u gadael yn sgil gwneud calch, ac mae'n amsugno calsiwm hydrocsid. Wrth iddo gyrraedd yr wyneb, mae'r dŵr - sydd nawr yn alcalin - yn adweithio gyda'r carbon deuocsid o'r aer, ac mae'r calsiwm hydrocsid yn troi'n garbonad calsiwm soled a elwir hefyd yn Galsit.

Caiff calchfaen ei wneud o weddillion miliynau ar filiynau o greaduriaid bach y môr a suddodd i waelod môr trofannol bas pan fuon nhw farw ychydig dros 300 miliwn o flynyddoedd yn ôl, pan oedd Prydain ar y cyhydedd! Os edrychwch chi'n ofalus, efallai y gwnewch chi ddarganfod gweddillion ffosil rhai o'r creaduriaid hyn yn y calchfaen.



Mae teim yn blanhigyn caled sy'n blodeuo o fis Mehefin i fis Awst, ac yn gollwng arogl cryf. Porffor yw lliw ei flodau. Mae'n hoffi tyfu mewn pridd calchog, tywodlyd neu alcalin sydd wedi'i ddraenio'n dda. Mae gwenyn wrth eu boddau â'r blodau hyn!

Mae cen yn cynnwys dwy organeb wahanol, sy'n creu perthynas symbiotig â'i gilydd er mwyn i'r ddwy allu goroesi. Y ffwng sy'n creu rhan weladwy'r cen. Y tu mewn, ac wedi'i ddiogelu gan y ffwng, y mae celloedd alga. Mae'r ffwng yn cael maetholion o'r alga ac yn ei dro'n rhoi cysgod i'r alga, sy'n ei alluogi i dyfu mewn amodau garw, megis arwynebau creigiau lle byddai fel arall yn cael ei ddistrywio.

